

ROBERTS, JOHN (1775 - 1829), clerigwr ac awdur

Enw: John Roberts
Dyddiad geni: 1775
Dyddiad marw: 1829
Rhiant: John Roberts
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1775 yn fab i John Roberts, Plas Harri, Llanefydd. Aeth i Goleg Iesu, Rhydychen, yn 1792, a graddiodd yn 1796. Bu wrthi yn Rhydychen ar ôl graddio, yn cywiro'r argraffiad Cymraeg o'r Beibl a'r Llyfr Gweddi a gyhoeddwyd gan y S.P.C.K. yn 1799. Yn 1798, penodwyd ef yn guraid Chiselhampton a Stadhampton gerllaw Rhydychen, ond awyddai'n fawr gael dychwelyd i Gymru, ac yn 1803 daeth yn guraid i ficer Tremeirchion ('Dymeirchion'); pan fu farw'r ficer (1807) cafodd John Roberts y fywoliaeth. Cofir ef yn bennaf, efallai, am ei wrthwynebiad pendant i olygiadau [William Owen Pughe](#) ar yr orgraff Gymraeg; gan i [Thomas Charles](#) o'r Bala gael ei lygad-dynnu gan [Pughe](#) a bwriadu defnyddio ei orgraff yn argraffiad Cymdeithas y Beiblau o'r *Ysgrythur*, bu gohebiaeth bur frwd rhwng [Charles](#), Roberts, a gŵr mawr y gymdeithas; yn y diwedd, cariodd Roberts y dydd. Yn yr un modd bu'n dadlau yn erbyn '[Tegid](#)' pan oedd hwnnw am newid orgraff y *Llyfr Gweddi*; cyhoeddodd Roberts yn 1825 *Reasons for rejecting the Welsh Orthography ... attempted to be introduced*, traethawd y ceisiodd '[Tegid](#)' ei ateb yn 1829. Nid oedd gan John Roberts, fodd bynnag, serch na hoffai Fethodistiaeth, unrhyw gweryl ag amcanion cyffredinol [Thomas Charles](#); bu'n wir yn gefnogydd selog i Gymdeithas y Beiblau a hefyd i'r ysgolion Sul. Dengys llythyr o'i eiddo (gweler [D. E. Jenkins](#), *Thomas Charles*, iii, 302-3) ei fod yn ddigon bodlon, gyda goddefiad ei esgob (Cleave), i efelychu dulliau Methodistaidd, megis cynnal cyfarfodydd gweddi a seiadau profiad, ac iddo wasgu ar [Cleave](#) y priodoldeb o agor y drws i urddau eglwysig i wŷr ieuaic cymwys, serch na byddai ganddynt addysg academaidd. Y mae'n amlwg, yn wir, ei fod yn weinidog egniol dros ben. Cefnogai ' Gymdeithas Traethodau ' ei esgobaeth; golygodd, 1817, argraffiad newydd o *Lyfr yr Homiliau*; cyhoeddodd, 1831, gasgliad o emynau at wasanaeth yr Eglwys; a chychwynnodd, 1814-5, gyhoeddi *Cylchgrawn Cymru* dwy-ieithog, ond ni ddaeth ond pedwar rhifyn allan. Bu farw 25 Gorffennaf 1829, a chladdwyd yn Llanefydd.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Foster, *Alumni Oxonienses*

Y Gwylidydd, 1830, 263-7, 295-9 (y brif ffynhonnell)

D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908) (mynegai)

T. M. Jones, *Llenyddiaeth fy Ngwlad* (1893), 73

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q6255179](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.